# YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

Mewn undod mae nerth /Stronger together

06/04/2022

Annwyl Rieni/Gofalwyr

Mae tymor arall wedi hedfan heibio ac mae gwyliau'r Pasg yma! Gweler y llythyr gan Gyngor Abertawe am arweiniad ynghylch covid yn dilyn gwyliau'r Pasg. Byddwn yn dychwelyd i'r lefel ISEL ar y mesurau rheoli ar gyfer lledaeniad covid. Mae'n dal i fod yn argymhelliad bod disgyblion a staff yn hunanynysu am 5 diwrnod os ydynt yn profi'n bositif am covid.

Er ein bod ni dal wedi bod o dan gyfyngiadau covid cyfyngol, mae pawb yn yr ysgol wedi bod yn brysur. Cofiwch gadw llygad am ragor o wybodaeth ar ein cyfrif Trydar a thudalennau dosbarth.



**Eisteddfod 2022**

Da iawn i'r parti deulais, am ddod yn gyntaf. Da iawn hefyd i Beca a ddaeth yn 1af gyda'r ffidil a'r piano. Da iawn Elliw am ddod yn 1af cyntaf yn y ffliwt a Zosia yn 2il ar y trwmped. Llongyfarchiadau i Beca a ddaeth yn 1af yn canu yn yr unawd alaw werin a Gwen a ddaeth yn 2il. Llongyfarchiadau i'r ddwy am ennill y ddeuawd. Fe fyddan nhw nawr yn mynd ymlaen i gynrychioli Sir Abertawe yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Ddinbych. https://www.urdd.cymru/cy/eisteddfod/

**CRA**

Hoffem ailgychwyn y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn nhymor yr haf. Os aiff popeth yn iawn, rydym yn bwriadu cynnal Ffair Haf. Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn rhan hanfodol o fywyd yr ysgol. Mae'r gwaith o godi arian, sy'n digwydd gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, yn talu am lawer o gyfleoedd a phrofiadau y mae holl ddisgyblion yr ysgol yn eu mwynhau. Os hoffech ymuno â'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon anfonwch e-bost neu ffoniwch yr ysgol a gadewch eich manylion fel y gallwn eu hanfon ymlaen at Louise Davies. Byddwn yn trefnu cyfarfod CRA yn gynnar yn y tymor newydd.

**Gwirfoddoli yn yr Ysgol**

Gan fod cyfyngiadau covid wedi newid, byddem yn awr yn croesawu rhieni a hoffai wirfoddoli a helpu i gefnogi disgyblion yr Ysgol, yn ôl i'r ysgol. Gall gwirfoddoli fod ar sawl ffurf, megis darllen gyda disgyblion neu helpu gyda garddio a phlannu. Cysylltwch â'r swyddfa i rannu eich diddordeb/manylion.

**Chwarae ar y buarth**

Rydym ar hyn o bryd yn datblygu parthau chwarae gwahanol ar y buarth ar gyfer disgyblion amser chwarae ac amser cinio. Os oes gennych unrhyw hen Lego, citiau adeiladu neu gemau bwrdd (dim byd electronig) byddwn yn hapus i'w derbyn.

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

**YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR**

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

Mewn undod mae nerth /Stronger together

**Staffio**
Hoffem groesawu Mr Mike Collins i'r ysgol fel ein gofalwr newydd.

**PWYSIG! Presenoldeb a gwyliau**
Rydym yn hollol ymwybodol bod covid wedi effeithio ar bresenoldeb llawer o ddisgyblion. Fodd bynnag, yn ddiweddar mae'r nifer o ddisgyblion sydd yn cyrraedd yn hwyr i'r Ysgol wedi cynyddu'n sylweddol. Wrth i ni ddechrau'r tymor newydd, byddwn yn annog pob rhiant i sicrhau bod eu plentyn ar y safle **erbyn 8.45am fan hwyraf**. Mae gwersi dosbarth yn dechrau am 8.50yb. Mae plant sy'n cyrraedd yn hwyr ar ddechrau gwersi nid yn unig yn tarfu ar eu haddysg ond ar addysg eraill. Mae bod yn hwyr o ddim ond deg munud bob dydd am flwyddyn yn gwneud cyfanswm o dros 30 awr, sef dros chwe diwrnod llawn o ddysgu a gollwyd i'ch plentyn.

Gwyliau
Cofiwch y dylid gwneud unrhyw geisiadau am wyliau **o leiaf 2 wythnos** ymlaen llaw ac nad oes sicrwydd o absenoldeb 'awdurdodedig'. Bydd unrhyw wyliau a gymerir heb ganiatâd neu heb gyflwyno cais yn cael eu cofrestru fel rhai 'anawdurdodedig'. Mae llythyrau caniatâd ar gael yn ein swyddfa ar-lein a gan staff y swyddfa.

Yn y tymor newydd, bydd y Swyddog Lles Addysgol yn ailgysylltu â theuluoedd i sicrhau bod presenoldeb yn parhau i fod yn ffocws a bydd yn monitro hwyrni disgyblion. Bydd tystysgrif presenoldeb yn cael ei anfon adref gyda'ch plentyn yr wythnos hon.

**Dyddiau codi arian Wcráin a Trwynau Coch**
Da iawn pawb. Codwyd £570.84 ar gyfer Apêl y Groes Goch i gefnogi ymdrechion dyngarol yn yr Wcrain. Codwyd £228.99 hefyd i gefnogi'r elusennau a noddir gan ddiwrnod apêl y Trwynau Coch.

**Dyddiadau pwysig**
- Diwedd tymor – dydd Gwener – 8/4/22
- Dechrau tymor – Llun 25/4/22 – *Pob disgybl yn yr ysgol*
- Gwyliau Banc – Dydd Gwener 29/4/22 a Dydd Llun 2/5/22
- HMS Haf - Dydd Gwener 22/7/2022

Gobeithio y cewch chi wyliau Pasg hapus a phleserus.

Yn Gywir



Elin Wakeham

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**